



03.07.2023

Annwyl Riant/Ofalwr,

Noson Rhieni Blwyddyn 7 - Trefnu Apwyntiadau

Hoffwn eich gwahodd i fynychu Noson Rhieni Blwyddyn 7 ar **Gorffennaf 11^{ed} rhwng 3.45pm a 6pm**. Am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf, hoffem gynnig y cyfle i chi gwrdd ag athrawon eich plentyn **naill ai ar-lein** trwy 'School Cloud' **neu 'Wyneb yn Wyneb'** yn yr ysgol. Beth bynnag fo'ch dewis, rydym yn gofyn i rieni drefnu hyd at 8 apwyntiad ar-lein ymlaen llaw, gan ddefnyddio'r manylion isod.

Mae **apwyntiadau ar-lein** yn parhau am 4 munud ac ar gael rhwng **3.45pm a 4.45pm**, ac mae cyfarfodydd **wyneb yn wyneb** yn parhau am 5 munud ac ar gael yn yr ysgol rhwng **5.00pm a 6.00pm**.

Mae'r system archebu yn eich galluogi i ddewis eich amseroedd apwyntiad eich hun gydag athrawon a byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau eich apwyntiadau.

Gellir gwneud apwyntiadau o ganol dydd Mawrth Gorffennaf 3ed 2023 a byddant yn cau am ganol dydd ddydd Mawrth Gorffennaf 11^{ed} 2023. Os hoffech wneud unrhyw newidiadau ar ôl y dyddiad hwn, cysylltwch â'r tîm bugeiliol.

Ewch i <https://ysgolaberconwy.schoolcloud.co.uk> i drefnu apwyntiad. Mae canllaw byr ar sut i ychwanegu apwyntiadau wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn, yn ogystal â chod ymddygiad, y gofynnwn yn barchus ichi ei ddarllen a'i ddilyn ar y noson.

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch i fewngofnodi: Enw Cyntaf y Myfyriwr, Cyfenw'r Myfyriwr a'u Dyddiad Geni, yn ogystal â'ch manylion eich hun.

Os ydych yn dewis mynychu eich apwyntiadau ar-lein, bydd y rhain yn cael eu cynnal drwy'r un system ag yr ydym yn ei defnyddio ar gyfer yr archebion. Rydym wedi postio amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda'r system hon ar ein gwefan yma: <https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/parent-evenings/>, ond os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Os ydych yn dewis mynychu eich apwyntiadau yn bersonol, anelwch at gyrraedd yr ysgol cyn eich apwyntiadau a dewch â chopi o amseroedd eich apwyntiad gyda chi.

Pa bynnag ffordd y byddwch yn dewis cyfarfod ag athrawon eich plentyn, edrychwn ymlaen at eich gweld ar y noson!

Yn gywir

Ian Gerrard
Pennaeth

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE